**Rhesymeg**

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred CYSAG Gwynedd y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae CYSAG Gwynedd wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae CYSAG Gwynedd felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd.  Yng nghyfarfod CYSAG Gwynedd ar 13 Hydref 2010, penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

**Manylion cyswllt:** (kenrobinson@gwynedd.gov.uk) 01286 679888

**Enw (Clerc CYSAG): Ken Robinson.**

**Cyfeiriad: Swyddfa Addysg Ardal Arfon, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH.**

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol.  Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau.  Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Enw'r Ysgol:Llandwrog**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?**

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

Yn seiliedig ar arsylwadau gwersi ac arfarniad o waith disgyblion a trafodaethau am ddealltwriaeth o waith credir yr ysgol fod y deilliannau mewn addysg grefyddol yn dda oherwydd:

1. Mae'r plant yn deall fod pobl yn addoli mewn gwahanol ffyrdd.
2. Gwyddent lawer am storiau yr Iesu.
3. Gwyddent mai ein gwaith ni yw edrych ar ol y byd ar ran Duw.
4. Maent yn gwybod am ddathliadau y Cristion a rhai crefyddau eraill.
5. Empathi, y plant yn sylweddoli eu bod yn ffodus eu byd ac yn cydymdeimlo ag eraill gan feddwl am ffyrdd i gynorthwyo ac i wella bywydau eraill.
6. Maent wedi datblygu'r sgil o fyfyrio, wrth feddwl yn ol a meddwl am eraill.
7. Mae'r plant yn sylweddoli mai ein byd ni yw a'r pwysigrwydd o'i warchod ar ran eraill ac o ddymuniad ein Duw.
8. Mae dysgu ac addysgu, addysg grefyddol o safon uchel ac yn cael ei gynllunio'n ofalus o fewn cwricwlwm pob dosbarth.
9. Gall y plant hyn ddefnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu i wella eu gwaith addysg grefyddol.
10. Mae'n glir i bawb sy'n ymweld a'r ysgol mai ysgol eglwys yw Llandwrog, mae ein gwaith a'n arddangosfeydd yn dangos y gwerthoedd sy'n cael ei pwysleisio gyda pob plentyn yn yr ysgol.
11. Deallir ein disgyblion ei rol fel dinasyddion byd eang, maent yn deall fod eraill llai ffodus yn y byd ac mae Cyngor Ysgol brwdfrydig sy'n arwain ar gefnogi achosion da yn yr ysgol ac y y gymuned ehangach.
12. Rydym yn deulu estynedig lle mae ethos Gristnogol yn cael blaenoriaeth yn ein gwaith dyddiol. Mae gofal o'n gilydd yn cael blaenoriaeth pendant yn yr ysgol.

**Materion i gael sylw**

- Angen gwneud mwy o ddefnydd o'r Eglwys ar stepen ein drws.
- Angen pwysleisio ac atgoffa am bwysigrwydd crefydd ar adegau sydd wedi mynd yn seciwlar oherwydd pwyslais y cyfryngau megis Dolig a Pasg.
- Angen mwy o ymweliadau i Bl 3 a 4, Weithiau maent yn colli allan oherwydd eu hoedran.
- Angen plethu mwy o Gwricwlwm yr Eglwys i gynlluniau tymhorol.

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau:**

- Mae addysg grefyddol wedi ei gynllunio yn ofalus o'r cyfnod sylfaen i bl 3 a 4 at 5 a 6 gyda dilyniant pendant.
- Mae amser wythnosol wedi ei raglennu i'r pwnc drwy'r ysgol.
- Rydym yn gweithio'n agos a rheithor y plwyf i amlygu amserlen y flwyddyn Gristnogol i waith yr ysgol.
- Mae'r athrawon yn hyderus ac wedi derbyn hyfforddiant yn y maes a lle mae angen arbenigedd ychwanegol mae ymweliadau ac arbenigwyr yn rhoi arweiniad pendant inni.
- Mae adnoddau digonol i'n galluogi i addysgu'r maes o arteffactau i lyfrau i rhaglenni a gwefanau tgch penodol.
- Mae arsylwadau gwersi wedi dangos fod addysgu'r maes o safon dda, gyda pwyslais ar gyrhaeddiadau a safonau uchel.
- Defnyddir ystod eang o strategaethau wrth addysgu yn y dosbarthiadau ac mae asesu ar gyfer dysgu yn cael rhan blaenllaw yn ein gwersi.
- Mae ein ethos Gristnogol yn cael ei hyrwyddo a'i rannu yn ein dogfennaeth a'n polisiau fel ein Llawlyfr ysgol.
- Mae gennym Gorff Llywodraethu sy'n llwyr ymwybodol o'r safonau uchel sy'n cael ei hyrwyddo a'i rhannu acw.

**Materion i gael sylw**

- Adolygu ein cynlluniau yn gyson oherwydd newid mewn cyfansoddiad dosbarthiadau o flwyddyn i flwyddyn.

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?**

| Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol? | Ydy | Nac ydy |
|---|---|---|

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Mae addoli ar y cyd yn digwydd i'r ysgol gyfan dair gwaith yr wythnos gyda'r athrawon yn eu tro yn arwain yr addoli a'r rheithor lleol yn ymweld bob bor Gwener i arwain yr addoliad.
- Mae gwasanaethau pellach yn digwydd yn y dosbarthiadau.
- Mae ethos Anglicanaidd i'r addoli drwy defnydd o gannwyllau, darlleniadau o'r Beibl a gweddiau.
- Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r rheithor ar ffordd i'r plant arfarnu'r addoli drwy ddefnyddio tgch.
- Mae ein gwasanaethau yn hyrwyddo gwerthoedd o barch, maddeuant, cyfrifoldeb, ffydd a rhyddid.
- Rydym yn rhannu ein gwerthoedd gyda'r gymuned ehangach yn ein gwasanaethau megis Diolchgarwch a Dolig.
- Mae'r plant yn deall pam mae gwasanaethau yn digwydd yn yr ysgol.
- Mae'r corff llywodraethu yn derbyn adroddiad gan y pennaeth ar wasanaethau o fewn yr ysgol, ac mae dau lywodraethwr dynodedig yn cynrychiol'r eglwys ar y corff.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Oherwydd bod dosbarth yn neuadd yr ysgol mae'n anodd cael cornel myfyrio, rhaid edrych ar ffyrdd o gael mannau tawel i fyfyrio yn y dosbarthiadau ac o amgylch yr adeilad. Mannau addas i gynnal gwasanaethau pellach.

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: T.A.R.Jones (Pennaeth)

Dyddiad: 16/7/12